

## Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru Medi 2019

Dyma'r diweddariad chwarterol diweddaraf mewn cyfres ohonynt ar gyfer defnyddwyr Ystadegau Cymru. Mae'n cynnwys gwybodaeth am ein datblygiadau, ein hymgyngoriadau a'n cynlluniau diweddaraf.

Ceir rhestr lawn o'n cyhoeddiadau diweddaraf ar ein [calendr o'r hyn sydd i ddod](#).

### Yr economi a'r farchnad lafur

Yn ogystal â'r diweddariadau misol i'n [hystadegau economaidd allweddol](#), mae diweddariadau eraill diweddar yn cynnwys ystadegau ar [gynhyrchiant is-ranbarthol](#), [proffiliau rhanbarthol marchnad lafur ac economaidd](#), [dangosyddion allbwn tymor byr](#) a dadansoddiadau o'r farchnad lafur is-Gymru o'r [Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth](#).

Ym mis Gorffennaf, ail-lansiwyd y dangosfwrdd rhyngweithiol [Economi Cymru mewn Rhifau](#). Mae'r dangosfwrdd yn cyflwyno dangosyddion economaidd allweddol sy'n edrych ar incwm, allbwn economaidd, gwaith, tlodi a chyfoeth. Mae'n dangos ystadegau diweddaraf a chyddestun hanesyddol Cymru a'r tair rhanbarth economaidd, gan ddangos sut mae Cymru yn cymharu â gwledydd a rhanbarthau eraill y DU.

Ar 5 Medi, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) amcangyfrifon cyntaf y [cynnyrch domestig gros chwarterol ar gyfer gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr](#). Yr ystadegau arbrofol hyn yw'r amcangyfrifon cynnyrch domestig gros swyddogol cyntaf ar gyfer Cymru ac maent yn seiliedig yn bennaf ar ddata trosiant treth ar werth. Cyhoeddwyd y [prif ystadegau](#) a [diweddariad gan y prif ystadegydd](#), sy'n disgrifio'r gwahaniaethau allweddol rhwng y gyfres newydd a'r dangosyddion eraill. Bydd ONS yn cynnal ymgynghoriad â defnyddwyr a fydd hefyd yn casglu safbwyntiau gan ddefnyddwyr ystadegau economaidd Cymru i ddeall sut gellid defnyddio'r data.

### Addysg

Yn ddiweddar, cyhoeddwyd ein cyhoeddiad blynyddol ar [yr iaith Gymraeg mewn sefydliadau addysg uwch](#).

Mae ein datganiad blynyddol [cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur](#) wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar, yn ogystal â'n bwletin blynyddol ar [bobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant](#).

Mae ein hystadegau diweddaraf ar y [nifer a ddechreuodd ar raglenni dysgu prentisiaeth](#) wedi cael eu cyhoeddi ac maent yn cael eu hategu gan ddangosfwrdd rhyngweithiol.

## Yr Amgylchedd a thai

### Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

Ym mis Mai, cyhoeddwyd [Amcangyfrifon Tlodi Tanwydd ar gyfer Cymru \(Prif Ganlyniadau\): 2018](#). Diben yr adroddiad hwn oedd rhyddhau'r prif ffigurau hyn i'r cyhoedd a'u defnyddio cyn gynted â phosibl, gan ystyried bod yr amcangyfrifon llawn blaenorol wedi'u cyhoeddi yn 2010 a'u bod yn seiliedig ar Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008. Ddiwedd mis Awst, cyhoeddwyd dadansoddiad manwl o [Amcangyfrifon Tlodi Tanwydd ar gyfer Cymru: 2018](#).

Ar 23 Hydref 2019, byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad [Effeithlonrwydd Ynni mewn Anheddau a'r tablau cysylltiedig](#).

Mae'r gwaith yn parhau i sicrhau bod y set ddata Arolwg Cyflwr Tai Cymru nad yw'n datgelu gwybodaeth bersonol yn cael ei rhyddhau ar Archif Data'r DU, ac mae data manylach ar gael yn uniongyrchol gan dîm [Arolwg Cyflwr Tai Cymru](#) o dan drwydded arbennig.

### Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru

Rydym yn gweithio gydag Uned Ymchwil Data Gweinyddol Llywodraeth Cymru i roi achosion busnes i ONS ar gyfer rhannu data perthnasol o dan y Ddeddf Economi Digidol. Bydd data presennol yr Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru yn cael eu mudo i'r plattform fydd yn eu lletya yn yr hirdymor (Plattform e-Ymchwil Diogel yn y DU) yn y misoedd nesaf. Mae cytundeb â Phrifysgol Abertawe yn ei le ar gyfer y plattform hwn a bydd ffocws mawr ar greu ein strwythurau llywodraethu ein hunain yn gysylltiedig â hyn. Byddwn yn ceisio ychwanegu rhagor o wybodaeth am yr ynni a ddefnyddir, mesuryddion ynni deallus a mesuryddion rhagdalau gan BEIS, yn ogystal ag ymgysylltu â darparwyr tai cymdeithasol, gyda'r bwriad o gael mynediad at eu data rheoli stoc.

### Allbynnau Ystadegol ar Dai

Mae'r holl ddatganiadau ar gael ar [ein gwefan](#).

- Yn ddiweddar, cafodd [gwiriad cydymffurfio](#) (Saesneg yn unig) ei gynnal gan Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau o ystadegau ar Dai Fforddiadwy yng Nghymru. Daethant i gasgliad y dylai'r ystadegau hyn barhau i gael eu galw'n Ystadegau Cenedlaethol.

## Amcangyfrifon o'r angen a'r galw o ran tai

Ym mis Ionawr 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru erthygl ystadegol ar [Amcangyfrifon o'r Angen am Dai yng Nghymru ar lefel genedlaethol a rhanbarthol \(yn seiliedig ar 2018\)](#).

Ar 5 Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ail [erthygl ystadegol gan rannu'r amcangyfrifon o'r angen am dai yn ddwy ddeiliadaeth o ran tai](#):

- Tai'r farchnad agored (perchen-feddianwyr a'r sector rhentu preifat)
- Tai fforddiadwy (rhent canolradd a rhent cymdeithasol).

Mae'r ffigurau a gyflwynwyd yn yr erthygl hon yn amcangyfrif o'r angen am unedau tai ychwanegol yn ôl deiliadaeth, gan ystyried casgliad o ragdybiaethau. Mae'r rhain wedi'u rhannu'n ddeiliadaethau ar gyfer y 5 mlynedd gyntaf o amcangyfrifon yn unig (2018/19 i 2022/23).

## Grŵp Ystadegau Tai Traws-lywodraethol

Mae'r Grŵp Ystadegau Tai Traws-lywodraethol wedi cyhoeddi ei [gynllun gwaith newydd ar gyfer 2019-20](#).

## Iechyd

### Adnodd rhyngweithiol ar gyfer ystadegau iechyd a gofal

Er mwyn helpu defnyddwyr i ddod o hyd i ystadegau ar iechyd a gofal, mae [adnodd rhyngweithiol](#) ar gael. Mae'r adnodd yn cynnwys datganiadau blaenorol a rhai cyfredol sy'n trafod amrywiaeth eang o bynciau sy'n gysylltiedig ag iechyd a gofal yng Nghymru. Mae'n bosibl chwilio yn ôl pwnc, sefydliad, daearyddiaeth neu allweddair. Mae'r adnodd yn dal i gael ei ddatblygu a byddem yn croesawu adborth arno.

Mae ein holl ddatganiadau ystadegol ar gael ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost at [ystadegau.iechyd@llyw.cymru](mailto:ystadegau.iechyd@llyw.cymru).

## Arolwg Cenedlaethol

Cyhoeddwyd prif ganlyniadau arolwg 2018-19 ar 18 Mehefin 2019. Mae'r rhain, yn ogystal â'r holl fwletinau sydd wedi'u cyhoeddi cyn hynny ar gael ar [wefan yr Arolwg Cenedlaethol](#).

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar ddadansoddi pynciau penodol o ganlyniadau arolwg 2018-19 a bydd adroddiadau cysylltiedig yn cael eu cyhoeddi drwy gydol y flwyddyn. Bydd yr adroddiad cyntaf o'r rhain yn canolbwyntio ar y defnydd o'r rhyngrwyd, sgiliau digidol ac amser y mae plant yn ei dreulio o flaen sgrin.

Mae Arolwg Cenedlaethol 2019-20 bellach yn mynd rhagddo, a bydd canlyniadau cwestiynau 2019-20 ar gael ym mis Mehefin 2020.

Mae rhagor o wybodaeth ar [wefan yr Arolwg Cenedlaethol](#), neu gallwch [anfon e-bost atom](#).

## Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb

### Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

Disgwylir i Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 gael ei gyhoeddi fis Tachwedd 2019 a byddwn yn cyhoeddi diweddariad cryno ar gyfer defnyddwyr ar ein cynlluniau dangosyddion terfynol ddechrau'r hydref. [Mae rhagor o wybodaeth am Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gael ar-lein.](#)

### Trafnidiaeth

Rydym wedi cyhoeddi diweddariadau i ystadegau ar [hyd a chyflwr ffyrdd](#), [traffig ffyrdd](#) (un o dri datganiad ystadegol gan Lywodraeth Cymru a dreialir yn HTML) a [damweiniau ffyrdd wedi'u cofnodi gan yr heddlu](#).

### Llesiant Cymru

Byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol Llesiant Cymru ar 26 Medi ac eleni rydym yn newid y fformat. Rydym wedi canolbwyntio ar adroddiad byrrach, sy'n rhoi mwy o ddiweddariad o'r hyn rydym wedi'i ddysgu dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym hefyd wedi manteisio ar y cyfle i gyflwyno adroddiad sy'n fwy deniadol i'r llygad. Croesawn unrhyw adborth ar y ffordd hon o weithio.

Y bwriad fydd darparu dadansoddiad manylach o adroddiadau blaenorol bob pedair i bum mlynedd, pan fydd hi'n haws i ni ystyried cynnydd hirdymor.

### Y Gymraeg

Ar 18 Mehefin 2019, cyhoeddwyd [prif ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19](#), a oedd yn cynnwys [data ar y Gymraeg](#).

Ar 20 Mehefin 2019, cyhoeddwyd canlyniadau'r [Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth](#) ar y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2019.

Mae Arolwg Defnydd o'r Gymraeg 2019-21 bellach yn mynd rhagddo. Bydd y canlyniadau dros dro ar gyfer y naw mis cyntaf o waith maes ar gael yn ystod hydref 2020.

## **Cysylltiadau ar gyfer ystadegau Llywodraeth Cymru**

### **Ymholiadau ystadegol cyffredinol**

E-bost: [desq.ystadegau@llyw.cymru](mailto:desq.ystadegau@llyw.cymru)

Ffôn: 03000 255050

### **Pynciau penodol**

[Cysylltiadau ar gyfer ystadegau](#)

**Twitter** 

[YstadegauCymru](#)

### **Gwasanaeth hysbysu a newyddlenni e-bost Llywodraeth Cymru**

[Newyddion a hysbysiadau](#)

### **Ymholiadau gweinyddol**

E-bost [GweinydduGGD@llyw.cymru](mailto:GweinydduGGD@llyw.cymru)